

Etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned



Canllaw i Weithdrefnau Etholiadau

Diweddarwyd – Mawrth 2018

Cyflwyniad i Weithdrefnau Etholiadau

Mae'r nodiadau hyn i roi gwybodaeth i rai sydd am ymgeisio am swydd Cynghorwr Tref neu Gymuned, am y weithdrefn yn ymwneud ag Etholiadau Cyngor Tref/Cymuned. Dylid ei ystyried yn ganllaw cyffredinol yn unig ac nid fel datganiad cyfreithiol cynhwysfawr.

Debbie Marles, y Swyddog Canlyniadau a benodwyd gan Gyngor Bro Morgannwg, sy'n gyfrifol am y broses, a'r trefniadau ar gyfer etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned.

Fodd bynnag, mae gan y Cyngor Tref neu Gymuned a'i Glerc rôl bwysig i'w chwarae, yn enwedig wrth roi cyngor i ymgeiswyr arfaethedig cyn:

- etholiadau arferol bob pedair blynedd
- trefniadau cychwynnol ar gyfer llenwi seddi gwag achlysurol
- isetholiadau.

Bydd gwybodaeth am bob swydd wag – gan gynnwys Hysbysiad Etholiad, Datganiad am y Sawl a Enwebwyd, Hysbysiad Pleidlais a Datganiad o'r Canlyniadau - yn cael ei chyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/Elections/By-elections-and-Casual-Vacancy-Notices.aspx

Gallwch gael rhagor o ganllawiau gan y Comisiwn Etholiadol – www.comisiwnetholiadol.org.uk neu ffôn: 0333 103 1929.

Dylai'r nodiadau hyn fod yn gyfeirnod digonol os ydych ynghlwm wrth etholiadau Cyngor Tref/Cymuned. Fodd bynnag, os ydych am gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Adran Cofrestru Etholiadol
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri
Bro Morgannwg
CF63 4RU
Ffôn: 01446 709748
E-bost: electoralregistration@valeofglamorgan.gov.uk

Y Tîm Cofrestru Etholiadol:

Rebecca Light – Rheolwr Cofrestru Etholiadol (Ffôn: 01446 709304)

Hayley Hanman - Dirprwy Reolwr Cofrestru Etholiadol (Ffôn: 01446 709345)

Linda Savory – Swyddog Ymwybyddiaeth Gyhoeddus Cofrestru Etholiadol (Ffôn: 01446 709305)

Chelsie Webber - Cynorthwy-ydd Cymorth Gweinyddol (Ffôn: 01446 709570)

Henry Brown - Cynorthwy-ydd Cofrestru Etholiadol (Ffôn: 01446 709748)

Cynnwys

<u>A. ETHOLIADAU CYNGOR TREF/CYMUNED ARFEROL</u>	4
<u>1. Cyfnod y Swydd</u>	4
<u>2. Cyfuniad o Etholiadau</u>	4
<u>3. Amserlen Etholiadau</u>	4
<u>4. Pleidlais Gudd</u>	4
<u>5. Gweithdrefnau Enwebu</u>	4
<u>6. Datganiad am y Sawl a Enwebwyd</u>	6
<u>7. Diddymu Enwebiad</u>	7
<u>8. Penodi Asiantau Pleidleisio, Post a Chyfrif</u>	7
<u>9. Etholiad Un Ymgeisydd</u>	7
<u>10. Etholiadau Amryw Ymgeiswyr – Datgan y Canlyniadau</u>	8
<u>11. Treuliau Etholiadau a Chofrestrau a Gyflenwir</u>	8
<u>12. Datgan Derbyn Swydd</u>	8
<u>13. Cyfarfod Blynnyddol</u>	9
<u>14. Troseddau etholiadau a throseddau annetholiadol</u>	9
<u>B. LLENWI SWYDDI DROS DRO</u>	10
<u>1. Y Swydd Wag</u>	10
<u>2. Llenwi'r Swydd Wag drwy Etholiad</u>	10
<u>3. Cardiau Pleidleisio Swyddogol</u>	10
<u>4. Llenwi'r Swydd Wag drwy Gyfetholiad</u>	11
<u>5. Cyfetholiad – Arfer Gorau</u>	11
<u>6. Enwebiadau Annigonol</u>	12
<u>7. Cyfnod y Swydd</u>	12
<u>C. Atodiadau</u>	13
<u>Atodiad 1</u>	13
<u>Atodiad 2</u>	14
<u>Atodiad 3</u>	16
<u>Atodiad 4</u>	17
<u>Atodiad 5</u>	18

A. ETHOLIADAU CYNGOR TREF/CYMUNED ARFEROL

1. Cyfnod y Swydd

Bydd Cynghorwyr Tref/Cymuned yn y swydd am gyfnod o bedair blynedd (neu os cânt eu hethol yng nghanol y cyfnod, byddant yn y swydd am weddill y cyfnod yn unig) ac yn ymddeol ar y pedwerydd diwrnod ar ôl diwrnod arferol yr etholiad. Bydd y Cynghorwyr newydd yn dechrau yn y swydd (os ydynt wedi datgan derbyn y swydd) ar y diwrnod y bydd eu rhagflaenydd yn ymddeol (Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 16(3)). Bydd Cadeirydd Cyngor Tref/Cymuned yn dal i fod yn y swydd nes bydd ei olynydd yn gallu gweithredu felly.

2. Cyfuniad o Etholiadau

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Adran 36 yn galluogi etholiadau arferol Cynghorau Sir i gael eu cyfuno ag etholiadau arferol Cynghorau Tref/Cyngor, os ydynt yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod. Os trefnir Etholiad Cyffredinol Seneddol ar gyfer yr un diwrnod ag etholiadau arferol y Cynghorau Sir a Thref/Cymuned, yn ôl y gyfraith dylid cyfuno'r pleidleisiau Sirol a Seneddol a gohirio diwrnod pleidleisio dros y Cyngor Tref/Cymuned am dair wythnos.

3. Amserlen Etholiadau

Bydd yr Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rhoi amserlen i Glercod Cynghorau Tref/Cymuned ar gyfer pob etholiad neu isetholiad. Bydd dyddiau Sadwrn, Sul, Noswyl y Nadolig, Dydd Nadolig, dydd Gwener y Groglith neu Wyl Banc yn cael eu diystyru wrth gyfrifo'r amserlen cyn y bleidlais. Fodd bynnag, cânt eu cynnwys wrth gyfrifo'r amser gweithredu ar ôl diwrnod y bleidlais. Er enghraifft, y diwrnod olaf ar gyfer datgan treuliau etholiad yr ymgeiswyr yw'r un sydd 28 diwrnod calendr ar ôl diwrnod yr etholiad.

4. Pleidlais Gudd

Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau newydd am bleidlais drwy'r post neu i newid pleidlais drwy'r post yn bleidlais drwy ddirprwy (neu'n groes), i gael anfon papur pleidleisio drwy'r post i gyfeiriad gwahanol, neu i ganslo pleidlais drwy'r post i Swyddfa Cofrestru Etholiadol yng Nghyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU erbyn **5pm ar yr 11eg diwrnod cyn y Diwrnod Pleidleisio**. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau newydd neu ddirprwy diwygiedig erbyn **5pm ar y chweched diwrnod cyn y Diwrnod Pleidleisio**.

5. Gweithdrefnau Enwebu

Mae'n bwysig bod papurau enwebu wedi'u cwblhau'n gywir. Er yn aml y bydd y Clerc Tref/Cymuned yn trefnu i rannu a goruchwyllo'r gwaith o gwblhau'r papurau enwebu, cyfrifoldeb pob Ymgeisydd, ac nid y Clerc, yw sicrhau bod y papurau'n cael eu cyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau cyn y dyddiad cau a nodir yn yr amserlen etholiadau statudol. Ni fydd unrhyw bapurau sy'n anghyflawn, yn anghywir neu a gaiff eu derbyn ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried yn ddilys.

Gellid defnyddio'r wybodaeth ganlynol fel canllaw:

Amdanoch Chi:

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gael ei enwebu ar **bapur enwebu** ar wahân ar y ffurf benodedig, dylid darllen y nodiadau yn y pecyn enwebu yn ofalus iawn.

Mae'n rhaid i'r papur enwebu roi:

- yr **enw llawn** (cyfenw yn gyntaf) a **chyfeiriad cartref** yr ymgeisydd,
- ei **d/disgrifiad** (os ydyw'n dymuno), heb fod yn hwy na chwe gair. Ni chaiff ymgeisydd ddefnyddio disgrifiad sy'n debygol o arwain pleidleiswyr i gysylltu ef neu hi â Phlaid Wleidyddol ac eithrio pan awdurdodir disgrifiad gan Dystysgrif wedi ei harwyddo gan neu ar ran Swyddog Enwebu Cofrestredig y blaid honno, y mae'n rhaid hefyd ei dderbyn gan y Swyddog Canlyniadau ddim hwyrach na'r amser hwyrach ar gyfer cyflwyno'r papurau enwebu. Os yw ymgeisydd yn bwriadu defnyddio logo plaid wrth ymyl ei h/enw ar y papur pleidleisio, mae'n rhaid gwneud cais am hyn hefyd cyn yr amser cau ar gyfer cyflwyno enwebiadau.

Llofnodi Enwebiadau:

Mae'n rhaid i'r papur enwebu gael ei lofnodi gan:

(i) Y Cynigiwr ac

(ii) Eilydd

Mae'n rhaid i'r Cynigiwr a'r Eilydd fod yn etholwyr llywodraeth leol y Gymuned, neu os yw'r Gymuned wedi'i rhannu yn wardiau, bydd angen nodi'r Ward Gymunedol a'u rhifau etholiadol ar y papur enwebu. Ni chânt lofnodi mwy o bapurau enwebu na nifer y swyddi gwag sydd i'w llenwi. Er y gall y Tîm Etholiadol gynnig rhifau etholiadol, ni chânt ddilysu'n ffurfiol papur enwebu yn syth, oherwydd mae'n bosibl y bydd ymgeisydd arall wedi cyflwyno papur gyda Chynigiwr/Eilydd tebyg.

Mae'n arfer da i'r Clerc Cyngor Tref/Cymuned beidio â llofnodi papurau enwebu nac annog ethol unrhyw ymgeisydd penodol. Bydd amhleidioldeb llym yn osgoi unrhyw gyhuddiad o dueddiad.

Bod yn Gymwys i Ymgeisio:

I gael ei ethol yn aelod o Gyngor Tref/Cymuned, mae'n rhaid i berson fod yn 18 oed ar ddyddiad ei h/enwebiad, ac yn ddinesydd y Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon, neu'n ddinesydd gwlad Aelod arall o'r Gymuned Ewropeaidd, ac un ai:

- (i) ar y diwrnod hwnnw mae ef/hi yn etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal neu'r Gymuned ac fe bery felly wedyn; neu
- (ii) mae ef/hi wedi meddiannu fel perchennog neu denant unrhyw dir neu eiddo arall yn y Gymuned yn ystod y deuddeng mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw; neu
- (iii) bu ei brif/phrif neu unig yn ystod y deuddeng mis yn yr ardal honno; neu

- (iv) mae ef/hi wedi byw yn y Gymuned neu o fewn 4.8 cilometr (3 milltir) oddi wrthi yn ystod y deuddeng mis cyfan.

Cynghorir ymgeiswyr i gwblhau cymaint o gymwysterau perthnasol ag sy'n berthnasol ar y ffurflen.

Mae rhai pethau sy'n eich gwahardd rhag ymgeisio yn yr etholiad, (gweler A.80 Deddf Llywodraeth Leol 1972) dyma'r prif rai:

- i. bod mewn swydd â chyflog gyda'r awdurdod;
- ii. bod yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn dros dro;
- iii. bod wedi'ch dedfrydu i'r carchar (un ai wedi'i ohirio ai peidio) am ddim hirach na thri mis, heb yr opsiwn o ddirwy yn ystod y pum mlynedd cyn yr etholiad; a
- iv. gwaharddiad dan unrhyw ddeddfiad mewn perthynas ag arferion llwgr neu anghyfreithlon.

Cydsyniad i Enwebiad:

NID yw'r enwebiad yn ddilys oni bai bod **cydsyniad i enwebiad** yr ymgeisydd, yn cael ei gyflwyno un ai'n ysgrifenedig ar neu o fewn un mis cyn y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno'r papurau enwebu, yn y lle a'r amser a benodir. Mae'n rhaid i'r cydsyniad gynnwys datganiad sy'n nodi bod yr ymgeisydd yn gymwys i gael ei ethol ar ddiwrnod yr enwebiad a'r etholiad (gan nodi pethau penodol sy'n ei wneud yn gymwys) ac mae'n rhaid bod â thyst hefyd. Gall unrhyw berson fod yn dyst i lofnod yr ymgeisydd. Mae'n rhaid i'r cydsyniad i enwebiad gynnwys dyddiad geni'r ymgeisydd.

Hyrwyddo a Gwariant:

Gall ymgyrch yr etholiad ddechrau cyn gynted ag y mae person yn datgan ei fod yn ymgeisydd. Mae'n rhaid i bob cyhoeddiad yn ymwneud â'r etholiad gynnwys manylion **enw llawn a chyfeiriad post llawn argraffwr a hyrwyddwr** y deunydd. Nid oes angen cynnwys manylion cyhoeddwr mwyach. Rhaid hefyd cynnwys enw a chyfeiriad unrhyw berson y mae'r deunydd yn cael ei gyhoeddi amdano os nad y person hwnnw yw'r hyrwyddwr.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr lynu at derfynau y maen nhw'n gallu gwario yn ystod y cyfnod rheoledig cyn etholiad. Yr uchafswm ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yw £740, a 6p fesul pob etholwr llywodraeth leol yn y ward. Dylid cadw cofnod (a derbynebau) ar gyfer unrhyw gostau, oherwydd erbyn diwedd proses yr etholiad, mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau a dychwelyd ffurflen Treuliau Etholiadau yn ôl y gyfraith. **Ni fydd Cyngor Bro Morgannwg yn ad-dalu treuliau i ymgeiswyr** – mae'r cofnod treuliau ar gael i'w archwilio'n gyhoeddus.

6. Datgan y Rhai a Enwebwyd

Mae angen i'r Swyddog Canlyniadau gyhoeddi **datganiad o'r bobl sydd wedi'u henwebu** nid hwyrach na 4pm ar yr 18fed diwrnod cyn diwrnod yr etholiad, yn ogystal ag unrhyw resymau nad yw unrhyw un arall a enwebwyd bellach yn ymgeisio. Caiff copi o'r datganiad hwn ei anfon i'r Clerc Tref/Cymuned i'w arddangos yn lleol. Cyhoeddir copi o'r hysbysiad hefyd ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ac yn nerbynfaf'r Swyddfeydd Dinesig.

7. Diddymu Enwebiad

Gall ymgeisydd ildio ei ymgais nid hwyrach na 4pm ar yr 19eg diwrnod cyn Diwrnod yr Etholiad, os yw ef neu hi'n cyflwyno **hysbysiad diddymu** gyda'i llofnod yn y lle penodol y bu un tyst iddo.

Dim ond wedi'r dyddiad terfyn hwn y byddwn ni'n gwybod a fydd pleidlais ai peidio.

8. Penodi Asiantau Pleidleisio, Post a Chyfrif

Gall ymgeisydd benodi asiantau pleidleisio i ganfod personiad mewn gorsaf bleidleisio, asiantau post i oruchwyllo pobl yn agor y pleidleisiau drwy'r post ac asiantau cyfrif i oruchwyllo'r cyfrif.

Asiantau Pleidleisio

Gallwch benodi nifer o asiantau pleidleisio i fynd i bob gorsaf bleidleisio, ond dim ond un asiant pleidleisio a all fod yn bresennol ar gyfer pob ymgeisydd mewn gorsaf bleidleisio ar unrhyw adeg. Gellid penodi asiant pleidleisio i fynd i lawer o orsafoedd pleidleisio. Dim ond pedwar asiant y mae modd eu penodi i unrhyw orsaf bleidleisio benodol oni bai bod y Swyddog Canlyniadau yn cytuno ar rif mwy.

Asiantau Post

Mae gennych chi a pherson rydych yn ei benodir i fynychu ar eich rhan hawl i fod yno pan agorir y pleidleisiau post. Mewn sesiynau agor pleidleisiau post, bydd y Swyddog Canlyniadau a'i thîm yn penderfynu a yw dyddiad geni a llofnod a nodir gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisiau post yr un peth â'r cofnodion gwreiddiol. Caiff papurau pleidleisio eu hagog wyneb i lawr a'u cau nes dyddiad ac amser y cyfrif.

Asiantau Cyfrif

Mae gennych hawl i wyllo'r cyfrif a byddwch yn derbyn cerdyn mynediad i westai er mwyn gwahodd un person arall i fynd gyda chi. Gallwch hefyd benodi asiantau cyfrif i fynychu ar eich rhan. Gall asiantau cyfrif oruchwyllo'r broses i sicrhau ei fod yn gywir a gallent dynnu sylw at bapurau pleidleisio amheus.

I benodi Asiantau Pleidleisio, Post neu Gyfrif, llenwch y ffurflenni perthnasol yn y pecyn enwebu a'u dychwelyd i'r Adran Cofrestru Etholiadol erbyn y dyddiad cau (Asiantau Pleidleisio a Chyfrif – pumed diwrnod gwaith ar ôl y bleidlais). Gall rhai cyfyngiadau fod yn berthnasol o ran nifer yr Asiantau Pleidleisio neu Gyfrif.

Mae'n rhaid i bob asiant sy'n mynychu gorsaf bleidleisio, sesiwn agor pleidleisiau post neu'r cyfrif ddarllen y gofynion cyfrinachedd, ac mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i gynnal cyfrinachedd.

Rhifwyr

Nid yw asiant pleidleisio yr un peth â 'rhifwr' (cynorthwydd ymgeisydd sy'n cyfrif faint o etholwyr sy'n gadael yr orsaf bleidleisio), nad oes ganddo unrhyw rôl swyddogol ac nad oes ganddo hawl i fynd i mewn i'r orsaf bleidleisio ac eithrio i bleidleisio.

9. Etholiad Un Ymgeisydd

Os nad yw nifer y bobl sydd wedi'u henwebu mewn modd dilys ar ôl i bobl ddiddymu eu hymgais yn uwch na nifer y Cynghorwyr sydd i'w hethol, datgenir bod yr ymgeiswyr sydd, wedi eu hethol cyn gynted â phosibl ar ôl yr amser hwyraf i

ddiddymu ymgais. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn rhoi gwybod am eu henwau i'r Clerc Tref/Cymuned ac i'r cyhoedd.

Fodd bynnag, ni fydd pobl a gaiff eu hethol dan yr amgylchiadau hyn yn eu swydd tan bedwar diwrnod ar ôl diwrnod yr etholiad (gweler paragraff A.1) oni bai mewn isetholiad lle bydd ymgeisydd yn cymryd ei swydd yn syth ar ôl datgan ei ethol.

Os nad oes digon o ymgeiswyr i lenwi pob swydd wag, yn ôl Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, Adran 21 caiff aelodau etholedig gyfethol aelodau i lenwi'r swyddi gwag os oes cworwm (h.y. - traean o gyfanswm nifer yr aelodau gydag isafswm o dri). Cyfeiriwch at Adran B 5 am gyngor ar gyfethol.

Os yw'r Cyngor Tref/Cymuned yn methu â chyfethol o fewn saith wythnos (35 diwrnod dan baragraff A.3) neu os does dim cworwm, gall Cyngor Bro Morgannwg drefnu etholiad newydd i sefydlu'r Cyngor Tref/Cymuned yn briodol.

10. Etholiadau Amryw Ymgeiswyr – Datgan y Canlyniadau

Pan fydd canlyniad y bleidlais yn dod i'r amlwg, bydd y Swyddog Canlyniadau neu'r Dirprwy penodedig yn:

- i. datgan y bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr sydd â mwy o bleidleisiau na'r ymgeiswyr eraill yn cael ei ethol, i'r swyddi Cynghorwyr gwag.
- ii. rhoi gwybod am enw pob ymgeisydd sydd wedi'i ethol i'r Clerc Tref/Cymuned.
- iii. rhoi gwybod yn gyhoeddus am enw pob ymgeisydd a'r cyfanswm o bleidleisiau a roddwyd i bob un (wedi'i ethol neu beidio) ynghyd â nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd.

11. Treuliau Etholiadau a Chofrestrau a Gyflenwir

Ar ddiwedd cyfnod yr etholiad, hyd yn oed os na chynhaliwyd pleidlais, mae'n **RHAID** i bob Ymgeisydd (llwyddiannus ai peidio) gyflwyno Datganiad Treuliau Etholiadau/Datganid i ddangos y treuliau (os oes rhai) a achoswyd yn rhan o'r ymgyrch etholiadau. Mae'r dogfennau hyn ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus a bydd peidio â dychwelyd datganiad (hyd yn oed os nad oes treuliau) yn drosedd etholiadol.

12. Datgan Derbyn Swydd

Bydd person a etholir i swyddfa Cynghorydd Tref/Cymuned yn:

- i. yn achos y Cadeirydd, yn y cyfarfod pan gaiff ei ethol; neu
- ii. yn achos Cynghorydd, cyn neu yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor Cymuned ar ôl ei ethol; neu
- iii. yn y ddau achos os yw'r Cyngor yn y cyfarfod hwnnw'n caniatáu cyn neu'n ystod cyfarfod arall y Cyngor

yn **Datgan Derbyn y Swydd** o flaen aelod o'r Cyngor neu swyddog priodol y Cyngor (gweler Atodiad 1).

Os na wneir hynny'n golygu y bydd y swydd yn dod yn wag (Deddf Llywodraeth Leol 1972, Adran 83). Bellach, mae angen i'r person sy'n gwneud y datganiad gydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor Tref/Cymuned.

13. Cyfarfod Blynyddol

Mae'n rhaid i Gyngor Tref/Cymuned gynnal cyfarfod blynyddol bob blwyddyn ar unrhyw ddiwrnod ym mis Mai.

Ac eithrio mewn blwyddyn pan gynhelir etholiadau arferol i bob Cynghorydd, pan fydd rhaid cynnal y cyfarfod blynyddol ar, neu o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y bydd y Cynghorwyr newydd yn dechrau yn eu swyddi (h.y. y pedwerydd diwrnod ar ôl diwrnod yr etholiad) dydd Llun fel arfer).

14. Troseddau etholiadau a throseddau an-etholiadol

Dylech fod yn ymwybodol o'r troseddau gwahanol a cheisio cyngor cyfreithiol lle bo'n briodol. Cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau os ydych yn credu y bu trosedd etholiadol. Os yw'n briodol, gellir atgyfeirio'r achos at yr Heddlu.

Dyma restr o droseddau etholiadol:

- Llwgrwobrwyo
- Trin
- Dylanwad annheg
- Personiad
- Datganiadau ffug
- Cofrestru ffug
- Ceisiadau ffug
- Torri cyfrinachedd
- Deunyddiau ymgyrch
- Casineb hiliol

B. LLENWI SWYDDI DROS DRO

Bydd Swyddi Dros Dro yn cael eu llenwi un ai drwy etholiad neu gyfetholiad. Dyma ganllaw cam wrth gam i helpu Clercod Tref/Cymuned:

1. Y Swydd Wag

Yn gyntaf, mae'n rhaid i'r Cyngor Tref/Cymuned roi gwybod i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol am y swydd wag, gan nodi'r enw, y rheswm a'r dyddiad. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyhoeddi Hysbysiad o Swydd Wag Dros Dro, a dylid arddangos y rhain mewn lleoedd amlwg yn y Gymuned. Bydd Cyngor Bro Morgannwg hefyd yn arddangos yr hysbysiad o Swydd Wag Dros Dro yn y Swyddfeydd Dinesig ac ar wefan Bro Morgannwg (gweler Atodiad 2).

2. Llenwi'r Swydd Wag drwy Etholiad

Yn ystod yr 14 diwrnod y bydd yr Hysbysiad wedi'i harddangos, gall deg etholwr o'r Gymuned neu Ward y Dref/Cymuned alw am etholiad. Er mwyn gwneud hyn bydd angen iddynt gyflwyno cais yn ysgrifenedig i'r Swyddog Canlyniadau, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU. Ceir ffurflen cais am etholiad sampl yn Atodiad 3.

Os digwydd hyn, bydd Clerc y Cyngor Tref/Cymuned yn cael gwybod yn syth. Y Swyddog Canlyniadau fydd yn penderfynu ar ddyddiad yr etholiad, ond bydd rhaid iddo fod o fewn 60 diwrnod gwaith (a gyfrifir yn unol ag Atodiad 2) o ddyddiad yr Hysbysiad.

Os oes Swydd yn Wag Dros Dro o fewn chwe mis cyn y diwrnod y byddai'r Cynghorydd hwnnw wedi ymddeol, ni chynhelir etholiad. Efallai y bydd y Cyngor Tref/Cymuned yn cyfethol person i lenwi'r swydd wag a bydd unrhyw swydd wag nad yw'n cael ei llenwi felly'n cael ei llenwi yn yr etholiad arferol nesaf.

3. Cardiau Pleidleisio Swyddogol

Pan nad yw'r bleidlais mewn etholiad Tref/Cymuned wedi'i chyfuno ag etholiad arall, bydd y Swyddog Canlyniadau yn cyflwyno cardiau pleidleisio ar gyfer yr etholiad hwnnw.

Rhoddir rhagamcan o'r pris o gynhyrchu a phostio cardiau pleidleisio ar gais.

Os cyfunir etholiad Tref/Cymuned ag etholiad Cyngor Bro Morgannwg, bydd y cardiau pleidleisio yn cael eu cyflwyno ar gyfer yr etholiad Sirol ond yn cyfeirio at yr etholiad Tref/Cymuned a fydd yn digwydd ar yr un diwrnod.

4. Llenwi'r Swydd Wag drwy Gyfetholiad

Os na wneir cais am etholiad, bydd y Clerc Tref/Cymuned yn cael gwybod bod yn rhaid i'r

Cyngor Tref/Cymuned gyfethol aelod i llenwi'r swydd wag cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Os yw Cyngor Tref/Cymuned yn bwriadu llenwi swydd wag drwy gyfetholiad, mae'n rhaid iddynt roi gwybod yn gyhoeddus am gyfle am gyfetholiad, fel sy'n ofynnol dan A. 116, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Dylid gwneud hyn drwy arddangos hysbysiad, yn debyg i'r hysbysiad yn Atodiad 4. Dylid cyflwyno enw a chyfeiriad y person a gyfetholir i'r Swyddog Canlyniadau.

Os nad oes cworwm y Cyngor Tref/Cymuned oherwydd y swyddi gwag dros dro, bydd Cyngor Bro Morgannwg yn galw am etholiad ac yn y cyfamser, mae'n bosibl y bydd pobl yn cael eu penodi i swyddi gwag nes bydd Cyngorwyr eraill yn cael eu hethol.

5. Cyfetholiad – Arfer Gorau

- (i) Mae'n RHAID hysbysebu swydd(i) gwag drwy hysbysiad cyhoeddus yn y gymuned; dylid ystyried hysbysebu'r swydd(i) gwag yn y wasg leol.
- (ii) Gosod dyddiad terfynol i'r ymgeiswyr arfaethedig ysgrifennu at Gadeirydd neu Clerc y Cyngor Tref/Cymuned er mwyn nodi eu diddordeb yn y swyddi gwag dros dro hyn.
- (iii) Dylid rhoi Hysbysiad am yr Etholiad (cyfetholiad) yn agenda cyfarfod y Cyngor Tref/Cymuned.
- (iv) Wrth gyrraedd yr eitem honno dylai'r Cadeirydd alw am enwebiadau, a dylid cynnig ac eilio'r enwebiadau hynny.
- (v) Gellid cyfweld ag ymgeiswyr neu ddarllen eu llythyr diddordeb ar goedd mewn cyfarfod Cyngor Tref/Cyngor.
- (vi) Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr arfaethedig gyflawni'r un gofynion meini prawf â'r rhai ar gyfer bod yn gymwys ar gyfer ymgeisio am etholiad.
- (vii) Pan mae pob enwebiad wedi'i dderbyn, dylid cynnal pleidlais. Fel arfer bydd enwau'r ymgeiswyr yn ymddangos yn nhrefn yr wyddor. (Argymhellir pleidleisio yn y cyngor ar swyddi gwag dros dro).
- (viii) Dylai ymgeisydd llwyddiannus fod wedi derbyn mwyafrif llwyr y bleidlais gan y bobl sy'n bresennol ac yn pleidleisio.
- (ix) Fel arfer os oes mwy na dau ymgeisydd ar gyfer un swydd wag ac nid yw unrhyw un ohonynt yn derbyn mwyafrif yn y cyfrif cyntaf, dylid cymryd camau i ganslo'r ymgeisydd gyda'r nifer lleiaf o bleidleisiau a dylid cynnal pleidlais arall; os oes angen, dylid ailadrodd y broses nes ceir mwyafrif llwyr.
- (x) Os oes mwy nac un swydd wag ac mae nifer yr ymgeiswyr yr un peth â nifer y swyddi gwag, gellid llenwi'r swyddi gwag gyda nifer yr ymgeiswyr, ond os yw nifer yr ymgeiswyr yn fwy na nifer y swyddi gwag, mae'n rhaid llenwi pob swydd wag gyda phleidlais ar wahân neu gyfres o bleidleisiau.

- (xi) Ar ôl cynnal y bleidlais, dylai'r Cadeirydd ddatgan yr ymgeisydd sydd wedi cael y nifer uchaf o bleidleisiau ac felly wedi'i ethol.
- (xii) Mae'n rhaid i'r person a etholir ddatgan ei fod yn derbyn y swydd cyn, neu yn ystod, cyfarfod cyntaf y Cyngor Tref/Cymuned ar ôl cael ei ethol, o flaen aelod o'r Cyngor Tref/Cymuned neu Swyddog Priodol y Cyngor Tref/Cymuned.

Sylwer: Does dim byd yn atal Cyngorwyr rhag mynd at bobl i gynnig eu hunain i'w cyfethol neu hyd yn oed hysbysebu ar gyfer ymgeiswyr cyfetholedig. Mae'n bosibl y gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno "cais" ysgrifenedig neu i siarad yn y cyngor cyn unrhyw bleidlais. Os gweithredir trefniadau felly, dylid sicrhau eu bod yn cael eu drafftio'n ofalus a'u cyflwyno i ymgeiswyr. Mae'n hanfodol bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn hafal er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n deg. Dylid darbwyllo ymgeiswyr dan drefniadau o'r fath rhag gwneud unrhyw lobio personol.

6. Enwebiadau Annigonol

Os oes cais am etholiad i lenwi swydd wag dros dro ond nid oes digon o enwebiadau, bydd rhaid trefnu etholiad pellach o fewn 35 diwrnod o ddyddiad yr etholiad gwreiddiol (Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Adran 39(1)).

7. Cyfnod y Swydd

Bydd person a etholir neu ei gyfethol i lenwi Swydd Dros Dro yn y swydd nes yr adeg y byddai deiliad presennol y swydd yn ymddeol.

C. Atodiadau

Atodiad 1

Cyngor Tref/Cymuned / Town/Community Council

Datgan Derbyn Swydd / Declaration of Acceptance of Office

Yr wyf i a'm hetholwyd yn
*Aelod/Cadeirydd o Gyngor Tref/ Cymuned, yn
datgan fy mod yn cymryd y swydd honno, ac y byddaf yn cyflawni
dyletswyddau'r swydd yn briodol ac yn ffyddlon hyd eithaf fy marn a'm
gallu.

Yr wyf yn ymrwymo i barchu'r cod ymddygiad y disgwylir i aelodau
Gyngor Tref/ Cymuned gydymffurfio ag ef ac y gellir
ei adolygu o bryd i'w gilydd.

Llofnod/ Signed:

* Dilëwch fel bo'n briodol/ Delete as appropriate

Cafodd y datganiad hwn ei wneud a'i lofnodi o'm blaen / This declaration was made and signed before me

Llofnod/ Signed:

Printiwch eich Enw/Print Name

Aelod neu Swyddog Priodol o'r Cyngor Tref/ Cymuned/ Member or Proper Officer of the Town/Community Council

Ihaving been elected to the office of
*Member/Chairman of Town/Community Council
declare that I take that office upon myself, and will duly and faithfully
fulfil the duties of it according to the best of my judgement and ability.

I undertake to observe the code as to the conduct which is expected
of members of Town/Community Council and
which may be revised from time to time.

Dyddiad/Date:

PUBLIC NOTICE

XXXXXXXXXX COMMUNITY COUNCIL (XXXX WARD)

NOTICE IS HEREBY GIVEN that a Casual Vacancy exists for the above named Council and if no election is requested as below the Community Council will fill the vacancy by way of co-option.

An election will be held if TEN local government electors for the xxxxxxxxxx Ward give notice, in writing, of a request for such an election to the Returning Officer, The Vale of Glamorgan Council, Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU, not later than 12 o'clock midnight on xxxxxxxxxxxxxx.

**Dated this xxxx Day of xxxxxxxxxxxxxx
CLERK TO THE COUNCIL**

**XXXXXXX
Clerk to the Council
XXXXXXX
XXXXXXX**

HYSBYSIAD CYHOEDDUS

CYNGOR CYMUNED xxxxxxxxx

HYSBYSIR TRWY HYN bod Sedd Wag Dros Dro ar y Cyngor a enwyd uchod, ac oni ofynnir am etholiad yn unol â'r drefn ganlynol, y bydd y Cyngor Cymuned yn llenwi'r sedd honno trwy gyfethol aelod.

Cynhelir etholiad os yw DENG o etholwyr llywodraeth leol ar gyfer Ward Etholiadol xxxxxxxxxxxx yn rhoi rhybudd ysgrifenedig i Swyddog Etholiad Cyngor Bro Morgannwg yn Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, y Barri, CF63 4RU, ddim hwyrach na 12 o'r gloch, sef hanner nos, ar xxxxxxxxxxxxxxxx.

**Dyddiedig xxxxxxxxx
CLERC Y CYNGOR**

**xxxxxxxxxxxxx
Clerc y Cyngor
Xxxxxxxx
Xxxxxxxx
xxxxxxx**

Atodiad 3

CAIS AM ETHOLIAD

Rydym yn ddeng etholwr Llywodraeth Leol ar gyfer

Tref/Cymuned.....

..... WARD

Rydym yn gofyn am etholiad i lenwi swydd Cyngorydd Tref/Cymuned
wag dros dro oherwydd

.....

fel y'i cyhoeddwyd yn hysbysiad

	Enw mewn llythrennau bras	Llofnod	Cyfeiriad	At ddefnydd swyddfa
1				
2				
3				
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				

Dyddiedig

Atodiad 4

HYSBYSIAD O GYFETHOL

Adran 116 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

NOTICE OF CO-OPTION

Section 116 Local Government (Wales) Measure 2011

Cymuned	COMMUNITY NAME	Community
Ward (os yw'n berthnasol)	WARD NAME	Ward (if applicable)
<p>RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN bod _____ swydd Cynghorydd wag yn y Gymuned/Ward uchod, a bod y Cyngor Cymuned yn bwriadu cyfethol.</p> <p>Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau'r cyhoedd sy'n bodloni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned a enwir. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:*</p> <ul style="list-style-type: none">wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neuyn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neubu eich prif neu unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neurydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf. <p>*Mae rhai pobl benodol wedi'u gwahardd rhag ymgeisio, yn eu plith mae swyddogion cyflogedig y Cyngor; unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r sawl sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei fod yn gymwys i ymgeisio.</p>	<p>NOTICE IS HEREBY GIVEN that _____ vacancy(ies) has/have occurred in the office of Councillor for the above mentioned Community/Ward, and the Community Council intends to co-opt.</p> <p>Expressions of interest are being sought from members of the public who meet the following qualifications and are interested in representing their community on the aforementioned Community Council. You must be a British, Commonwealth, Irish or a European Union citizen and be 18 years of age or over; and meet at least one of the following criteria:*</p> <ul style="list-style-type: none">registered as a local government elector for the area named above; orduring the whole of the last 12 months occupied as owner or tenant land or other premises in the community named above; oryour principal or only place of work during the last 12 months has been in the community named above; oryou have during the whole of the last 12 months resided in the Community or with 4.8 kilometres of it. <p>*Certain people are disqualified from standing, and these include paid officers of the community council, anyone subject to bankruptcy restriction orders and those subject to recent sentences of imprisonment. It is the responsibility of the candidate to ensure that they are qualified to stand.</p>	

Llofnodwyd _____ **Signed**
Clerc y Cyngor / Clerk to the Council

Dyddiwyd _____ **Dated**

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i'ch cyfethol ar gyfer y sedd(i) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Swyddog Priodol, Clerc y Cyngor Cymuned ar/yn
erbyn _____
If you wish to be considered for co-option for the vacant seats(s) or want more information regarding the role of a Community Councillor please contact the Proper Officer, Clerk to the Council Community on/at
_____ by _____

Atodiad 5

Amserlen – Is-etholiad xxxxxxx (Ward xxxxxx) Dydd Iau xxxxxx

		<u>DIWRNOD</u>	<u>Dyddiad</u>
Hysbysiad Etholiad	-25		
Cyflwyno papurau enwebu – yn ystod oriau swyddfa	-24		
Diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno papurau enwebu – 4pm	-19		
Diwrnod olaf i ymgeisydd dynnu nôl – 4pm	-19		
Cyhoeddi Datganiad am y Sawl a Enwebwyd – 4pm	-18		
Diwrnod olaf ar gyfer cofrestrriad newydd	-12		
Diwrnod olaf i dderbyn ceisiadau i newid neu ganslo pleidleisiau cudd. Diwrnod olaf i ddiwygio pleidleisiau dirprwy presennol – 5pm	-11		
Diwrnod olaf ar gyfer ceisiadau post newydd			
Dyddiad cyntaf i gyflwyno pleidleisiau absennol	-10		
Cyhoeddi Hysbysiad Pleidleisio a sefyllfa'r orsaf bleidleisio	-6		
Cyflwyno pleidleisiau dirprwy am y tro olaf – 5pm	-6		
Diwrnod olaf i benodi asiantau cyfrif / pleidleisio	-5		
Diwrnod cyntaf i gyflwyno papurau newydd os caiff papurau pleidleisio eu colli	-4		
Dirprwy Brys – 5pm	0		
Diwygiad i wella nam clercaidd – 9pm	0		
Diwrnod olaf i newid camgymeriad clercaidd neu i weithredu penderfyniad llys (apêl cofrestrriad)	0		
Dyddiad cau i ddychwelyd treuliau etholiad (dyddiau calendr)	28		